FFURFLEN RHW37

# HYSBYSIAD O ESTYN CYFNOD PRAWF: CONTRACT SAFONOL YMDDYGIAD GWAHARDDEDIG

*Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan baragraff 4(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y cyfnod prawf, mewn perthynas â chontract meddiannaeth sy'n gontract safonol cyfnodol oherwydd gorchymyn o dan adran 116 o'r Ddeddf honno, i'w estyn i'r cyfnod o 18 mis.*

| **Rhan A: Landlord** | **Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract** |
|---|---|
| Enw:<br><br>Cyfeiriad: | Enw(au): |

| **Rhan C: Annedd** |
|---|
| Cyfeiriad: |

| **Rhan D: Hysbysiad bod Cyfnod Prawf yn Cael ei Estyn** |
|---|
| Mae'r landlord wedi penderfynu estyn cyfnod prawf contract safonol ymddygiad gwaharddedig yr annedd uchod i'r cyfnod o 18 mis sy'n dechrau ar ddyddiad meddiannu'r contract. Bydd y cyfnod prawf yn dod i ben ar [*dyddiad*] …………………………<br><br>Dyma'r rhesymau dros y penderfyniad i estyn y cyfnod prawf:<br>*Rhowch y rhesymau'n glir.* |

| **Rhan E: Hawl i Ofyn am Adolygiad** |
|---|
| Cewch chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, o dan baragraff 5 o Atodlen 7 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ofyn i'r landlord adolygu'r penderfyniad i estyn y cyfnod prawf. Rhaid i gais am adolygiad gael ei wneud i'r landlord erbyn [*dyddiad*] …………………………<br><br>*Sylwer: Rhaid i'r dyddiad penodedig fod o leiaf 14 o ddiwrnodau ar ôl y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.* |

| **Rhan F: Llofnod** | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:<br><br>…………………………… | Dyddiad:<br><br>…………………………… |
| *Sylwer: Rhaid i'r hysbysiad hwn gael ei roi i'r deiliad contract* ***o leiaf*** *wyth wythnos cyn y diwrnod y byddai'r cyfnod prawf wedi dod i ben fel arall* | |